| | |
|---|---|
| ***Cyngor Sir Penfro***<br>***Cynllun Datblygu Lleol Diwygiiedig 2017–2033***<br>***ARHOLIAD***<br>**Pembrokeshire County Council**<br>**Revised Local Development Plan 2017–2033**<br>**EXAMINATION** | *Arolygwyr / Inspectors:*<br>**Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI**<br>**Ian Stevens MCD MRTPI**<br><br>*Swyddog Rhaglen / Programme Officer:*<br>**Deborah Williamson** |

***ff*/t: 01437 775545 e**: **programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk**

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2025

Annwyl Syr/Madam

**Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2**

Mae'n ymddangos o'm cofnodion eich bod chi neu'ch sefydliad wedi cyflwyno sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl) Sir Benfro neu 'newidiadau â ffocws' i'r CDLl.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel y Swyddog Rhaglen sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r arolygwyr penodedig gyda phob agwedd ar weinyddu'r archwiliad a'r gwrandawiadau, gan weithio'n annibynnol ar y cyngor.

Mae gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI a Paul Selby BEng (Anrh) MSc MRTPI yn arolygwyr i gynnal archwiliad o'r CDLl. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys cyfres o wrandawiadau cyhoeddus, ond cyn y gallwn symud i'r cam hwnnw o'r broses mae'r arolygwyr wedi ysgrifennu at y cyngor yn gofyn am ragor o wybodaeth am wahanol agweddau ar y CDLl. Mae copi o'u llythyr at y cyngor ar gael ar wefan yr archwiliad yn: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwiliad-2025

Gan ei bod yn debygol y bydd yn cymryd peth amser i'r cyngor gynhyrchu'r wybodaeth hon, mae'r arolygwyr wedi penderfynu atal yr archwiliad dros dro tan 24 Chwefror 2026. Pan fydd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi dod i law, bydd yr arolygwyr yn ei hadolygu ac yn drafftio rhaglen ar gyfer yr archwiliad. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar yr adeg honno.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr archwiliad, cysylltwch â mi.

Yn gywir

*Deborah Williamson*
Swyddog Rhaglen